

**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2013 RHIF. 53**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR YN 53  
GLENWOOD, LLANEDERN, CAERDYDD) 2013**

*Gwnaed*

*10 Ionawr 2013*

*Yn dod i rym*

*17 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrrdd (Tir yn 53 Glenwood, Llanedern, Caerdydd) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi iddo;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan o'r enw “Gorchymyn Cau Priffyrrdd (Tir yn 53 Glenwood, Llanedern, Caerdydd) 2013” sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

**Cau Prifordd**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn gallu datblygu yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf

**HIGHWAYS, WALES**

**2013 NO. 53**

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND AT  
53 GLENWOOD, LLANEDEYRN, CARDIFF)  
ORDER 2013**

*Gwnaed*

*10 Ionawr 2013*

*Made*

*10 January 2013*

*Yn dod i rym*

*17 Ionawr 2013*

*Coming into Force*

*17 January 2013*

The Welsh Ministers make this Order in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1).

**Title, Interpretation and Commencement**

**1.** (1) The title of this Order is the Stopping Up of Highways (Land at 53 Glenwood, Llanedeyrn, Cardiff) Order 2013.

(2) In this Order:-

“the Council” (“*y Cyngor*”) means the Council of the City and County of Cardiff;

“the developer” (“*y datblygwr*”) means the person carrying out the development for which the planning permission has been given;

“the deposited plan” (“*y plan a adneuwyd*”) means the plan entitled “The Stopping Up of Highways (Land at 53 Glenwood, Llanedeyrn, Cardiff) Order 2013” which accompanies this Order; and

“the 1990 Act” (“*Y Ddeddf 1990*”) means the Town and Country Planning Act 1990.

(3) This Order comes into force on the date on which notice that it has been made is published in accordance with section 252(10) of the 1990 Act.

**Stopping Up**

**2.** Subject to articles 3, 4, 5 and 6, the Welsh Ministers authorise the stopping up of the area of highway described in Schedule 1 shown by zebra hatching on the deposited plan. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to

1990 gan y Cyngor ar 16 Awst 2012 o dan gyfeirnod rhif 12/00323/DCO, ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

### **Prifordd wedi ei Gwella**

**3.** Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd y gwneir gwelliannau iddi a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adneuwyd, a bydd yn briffordd sydd, at ddibenion Deddf Prifyrdd 1980(2), yn briffordd i'w chynnal a'i chadw ar draul y pwrs cyhoeddus, a'r Cyngor fydd yr awdurdod prifyrdd drosti.

### **Y Darpariaethau Angenrheidiol neu Hwylus cyn Cau'r Briffordd ac er mwyn Darparu neu Wella'r Briffordd**

**4.** Ni chaniateir cau'r rhannau o briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fod y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 3 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi cadarnhau'n ysgrifenedig i'r datblygwr fod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

### **Ymgymerwyr a Darparwyr Statudol**

**5.** Pan fo gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhannau o briffordd (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran y cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part III of the 1990 Act by the Council on 16 August 2012 under reference number 12/00323/DCO and described in Schedule 3 to this Order.

### **Improved highway**

**3.** There shall be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the improved highway described in Schedule 2 and shown by cross hatching on the deposited plan, which is to be highway that, for the purposes of the Highways Act 1980(2), is a highway maintainable at the public expense and the Council will be the highway authority for it.

### **Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up and for the Provision or Improvement of the Highway**

**4.** The area of highway in Schedule 1 must not be stopped up until:-

(a) the developer has provided the improved highway described in Schedule 2 to the reasonable satisfaction of the Council;

(b) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing the means whereby the area of highway is to be stopped up;

(c) the development in Schedule 3 has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to close the highway to allow the development to proceed; and

(d) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b) and (c) are satisfied.

### **Statutory Undertakers and Providers**

**5.** Where immediately before the area of highway is stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

### **Duration of this Order**

**6.** If the development in Schedule 3 has not begun within the relevant period specified in Part III of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of such period, this Order ceases to have effect

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

10 Ionawr 2013

upon the cessation of the planning permission.

Signed under authority of the Minister for Local Government and Communities, one of the Welsh Ministers.

Dated

10 January 2013

## RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p.8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac erbyn hyn Gweinidogion Cymru sy'n eu harfer yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.  
(2) 1980 p.66

## ATODLEN 1

### (Bras amcan yw pob mesuriad)

#### Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n 9 metr yn y man hiraf, 6.9 yn y man lletaf, ac sy'n gyfagos i ardd gefn Rhif 53 Glenwood, Llanedern, Caerdydd.

## ATODLEN 2

#### Disgrifiad o'r briffordd sydd i'w gwella

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n 18 metr yn y man hiraf, 1 metr o ran lled, ac sy'n gyfagos i derfyn newydd gardd gefn Rhif 53 Glenwood, Llanedern, Caerdydd.

## ATODLEN 3

#### Y Datblygiad

Newid defnydd tir gan godi wal derfyn newydd yn wynebu'r briffordd ar dir sy'n gyfagos i 53 Glenwood, Llanedern, Caerdydd.

## RICHARD MORGAN

Head of Asset Management and Standards  
Welsh Government

- (2) 1990 c. 8. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, the functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales and are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30(2) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.  
(2) 1980 c.66

## SCHEDULE 1

(All measurements are approximate)

#### Description of the area of highway to be stopped up under this Order

An irregularly shaped area of all purpose highway with a maximum length of 9 metres and a maximum width of 6.9 metres adjacent to the rear garden of No. 53 Glenwood, Llanedeyrn, Cardiff.

## SCHEDULE 2

#### Description of the highway to be improved

An irregularly shaped area of all purpose highway with a maximum length of 18 metres and a width of 1 metre adjacent to the new boundary of the rear garden of No. 53 Glenwood, Llanedeyrn, Cardiff.

## SCHEDULE 3

#### The Development

Change of use of land with erection of new boundary wall facing highway at land adjacent to 53 Glenwood, Llanedeyrn, Cardiff.

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR YN 53 GLENWOOD, LLANEDERN, CAERDYDD) 2013

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrann 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2.

Awdurdodir cau'r briffordd er mwyn gallu gwneud y datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrrd (Tir yn 53 Glenwood, Llanedern, Caerdydd) 2013 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os bydd y caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad yn dod i ben neu'n cael ei ddirymu.

Gellir archwilio copiâu o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Swyddfeydd Rheoli Datblygu, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3ND, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1033200/1.

Os oes unrhyw berson yn dymuno herio diliusrwydd y Gorchymyn neu'r darpariaethau sydd yn ddo, gall wneud hynny ar y seiliau canlynol:

- a. Nad yw'r Gorchymyn o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. Bod buddiant wedi ei niweidio'n sylwedol oherwydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion Deddf 1990.

Caiff person, o fewn 6 wythnos ar ôl 17 Ionawr 2013, wneud cais i'r Uchel Lys am gael atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn os yw seiliau a. neu b. wedi eu bodloni.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Anstatudol Drafft/Trafnidiaeth, Cymru/Gorchymion Cau TCPA/2013).

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

### THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND AT 53 GLENWOOD, LLANEDEYRN, CARDIFF) ORDER 2013

**NOTICE IS HEREBY GIVEN** that the Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 to authorise the stopping up of the area of highway described in Schedule 1 to this Notice and to improve the area of highway described in Schedule 2.

The stopping up is authorised to enable the development in Schedule 3 to be carried out. The Stopping up of Highways (Land at 53 Glenwood, Llanedeyrn, Cardiff) Order 2013 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Development Control, Cardiff Council, City Hall, Cathays Park, Cardiff CF10 3ND or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1033200/1.

If any person desires to question the validity of or provisions within the Order, they may do so on the following grounds:

- c. The Order is not within the powers of the Town and Country Planning Act 1990; or
- d. That an interest has been substantially prejudiced by a failure to comply with any of the requirements of the 1990 Act.

A person may, within 6 weeks of 17 January 2013, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision in the Order provided grounds a. or b. are satisfied.

A copy of the Order and Notice can be viewed at [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk) (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Non-Statutory Instruments/Transport Wales/TCPA Stopping Up Orders, 2013).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmyntion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

#### ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n 9 metr yn y man hiraf, 6.9 yn y man lletaf, ac sy'n gyfagos i ardd gefn Rhif 53 Glenwood, Llanedern, Caerdydd.

#### ATODLEN 2

**Disgrifiad o'r briffordd sydd i'w gwella**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben, sy'n 18 metr yn y man hiraf, 1 metr o ran lled, ac sy'n gyfagos i derfyn newydd gardd gefn Rhif 53 Glenwood, Llanedern, Caerdydd.

**ATODLEN 3**  
**Y Datblygiad**

Newid defnydd tir gan godi wal derfyn newydd yn wynebu'r briffordd ar dir sy'n gyfagos i 53 Glenwood, Llanedern, Caerdydd.

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

#### SCHEDULE 1

(All measurements are approximate)

**Description of the area of highway to be stopped up under this Order**

An irregularly shaped area of all purpose highway with a maximum length of 9 metres and a maximum width of 6.9 metres adjacent to the rear garden of No. 53 Glenwood, Llanedeyrn, Cardiff.

**SCHEDULE 2**  
**Description of the highway to be improved**

An irregularly shaped area of all purpose highway with a maximum length of 18 metres and a width of 1 metre adjacent to the new boundary of the rear garden of No. 53 Glenwood, Llanedeyrn, Cardiff.

**SCHEDULE 3**  
**The Development**

Change of use of land with erection of new boundary wall facing highway at land adjacent to 53 Glenwood, Llanedeyrn, Cardiff.